

# Bywoliaeth Reithoral Y Bontfaen

**Blwyddyn C**

**Yr Ail Sul y Deyrnas**

**Year C**

**The Second Sunday of the Kingdom**

## **Emyn I**

Diolchwn oll i Dduw  
â llaw a llais a chalon,  
cans rhyfeddodau mawr  
a wnaeth i ni blant dynion:  
er dyddiau'n mebyd ni  
a'n cynnar gamre gwan,  
di-rif yw'r doniau hael  
a ddaw'n ddi-baid i'n rhan.

Yr hollgyfoethog Dduw  
a roddo inni beunydd  
dangnefedd dan ein bron  
a chalon lawn llawenydd,  
a'n cadw drwy ein hoes  
o fewn ei ras di-lyth,  
a'n gwared rhag pob drwg  
yr awr hon ac am byth.

Boed clod a mawl i Dduw,  
y Tad a'r Mab byth bythoedd,  
ynghyd â'r Ysbryd Glân  
yn entrych nef y nefoedd;  
y Duw sy'n Dri yn Un  
o'r dechrau hyd yn awr,  
a bery eto'r un  
i dragwyddoldeb mawr.

*Martin Rinkart, 1586-1649  
cyf. J. Henry Jones, 1909-85*

© Philip Henry Jones. Defnyddiwyd trwy ganiatâd

## **Hymn I**

Now thank we all our God  
with heart and hands and voices,  
who wondrous things has done,  
in whom his world rejoices;  
who from our mothers' arms  
has blessed us on our way  
with countless gifts of love,  
and still is ours today.

O may this bounteous God  
through all our life be near us,  
with ever joyful hearts  
and blessed peace to cheer us,  
to keep us in his grace,  
and guide us when perplexed,  
and free us from all ills  
of this world in the next.

All praise and thanks to God  
the Father now be given,  
the Son and Spirit blest,  
who reign in highest heaven  
the one eternal God,  
whom heaven and earth adore;  
for thus it was, is now,  
and shall be evermore.

*Martin Rinkart, 1586-1649  
tr. Catherine Winkworth (1827-1878)*

## Y Colect

Hollalluog Dad, dy ewyllys yw adfer pob peth yn dy annwyl Fab, Brenin pawb; llywia galonau a meddyliau pawb sydd mewn awdurdod, a dwg deuluoedd y cenedloedd, a wahanwyd ac a rwygwyd gan anrhaith pechod, i fod dan ei lywodraeth gyfiawn a thyner ef; caniata hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd.

**Amen.**

## Job 19.23-27a

Darlleniad o'r llyfr Job

O na fyddai fy ngeiriau wedi eu hysgrifennu! O na chofnodid hwy mewn llyfr, wedi eu hysgrifennu â phin haearn a phlwm, a'u naddu ar garreg am byth! Oherwydd gwn fod fy amddiffynnwr yn fyw, ac y saif o'm plaid yn y diwedd; ac wedi i'm croen ddifa fel hyn, eto o'm cnawd caf weld Duw. Fe'i gwelaf ef o'm plaid; ie, fy llygaid fy hun a'i gwêl, ac nid yw'n ddieithr. Y mae fy nghalon yn dyheu o'm mewn.

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch a fo i Dduw.**

## Salm 17.1-9

**A. Dangos dy ffyddlondeb rhyfeddol**

Gwrando, Arglwydd, gri am gyfiawnder; rho sylw i'm llef a gwrandawriad i'm gweddi oddi ar wesusau didwyll. Doed fy marn oddi wrthyt ti, edryched dy lygaid

## The Collect

Almighty Father, whose will is to restore all things in your beloved Son, the King of all: govern the hearts and minds of those in authority, and bring the families of the nations, divided and torn apart by the ravages of sin, to be subject to his just and gentle rule; grant this for the sake of your Son Jesus Christ, to whom with you and the Holy Spirit, be the kingdom, the power and the glory, for ever and ever. **Amen.**

## Job 19.23-27a

A reading from the book Job

Job said to his companions:

'O that my words were written down!  
O that they were inscribed in a book! O that with an iron pen and with lead they were engraved on a rock for ever! For I know that my Redeemer lives, and that at the last he will stand upon the earth; and after my skin has been thus destroyed, then in my flesh I shall see God, whom I shall see on my side, and my eyes shall behold, and not another.'

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

## Psalms 17.1-9

**R. Show me, O Lord, your loving kindness.**

Hear my plea of innocence, O Lord; give heed to my cry; listen to my prayer, which does not come from lying lips. Let my vindication come forth from your presence;

ar yr hyn sy'n iawn. Profaist fy nghalon a'm gwylio yn y nos, chwiliaist fi ond heb gael drygioni ynof. **A.**

Ni throseddodd fy ngenau fel y gwna eraill, ond fe gedwais eiriau dy wefusau. Ar lwybrau'r anufudd byddai fy nghamau'n pallu, ond ar dy lwybrau di nid yw fy nhraed yn methu. Gwaeddaf arnat ti am dy fod yn fateb, O Dduw; tro dy glust ataf, gwranddo fy ngeiriau. **A.**

Dangos dy ffyddlondeb rhyfeddol, ti, sy'n gwaredu â'th ddeheulaw y rhai sy'n llochesu ynot rhag eu gwrthwynebwy'r. Cadw fi fel kannwyll dy lygad, cuddia fi dan gysgod dy adenydd rhag y drygionus sy'n fy nistrywio, y gelynion sydd yn eu gwanc yn f'amgylchu. **A.**

## **2 Thesalonïaid 2.1-5, 13-17**

Darlleniad o'r Ail Lythyr Paul at y Thesalonïaid

Ynglŷn â dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n cydgynnull ni ato ef, yr wyf yn deisyf arnoch, gyfeillion, beidio â chymryd eich ysgwyd yn ddisymwth allan o'ch pwyll, na'ch cynhyrfu gan ddatganiad ysbryd, neu air, neu lythyr yn honni ei fod oddi wrthym ni, i'r perwyl fod Dydd yr Arglwydd eisoes wedi dod. Peidiwch â chymryd eich twyllo gan neb mewn unrhyw fodd; oherwydd ni ddaw'r Dydd hwnnw nes i'r gwrthgiliad ddod yn gyntaf, ac i'r un digyfraith, plentyn colledigaeth, gael ei ddatguddio. Dyma'r

let your eyes be fixed on justice. Weigh my heart, summon me by night, melt me down; you will find no impurity in me. **R**

I give no offence with my mouth as others do; I have heeded the words of your lips. My footsteps hold fast to the ways of your law; in your paths my feet shall not stumble. I call upon you, O God, for you will answer me; incline your ear to me and hear my words. **R**

Show me your marvellous loving-kindness, O Saviour of those who take refuge at your right hand from those who rise up against them. Keep me as the apple of your eye; hide me under the shadow of your wings, From the wicked who assault me, from my deadly enemies who surround me. **R**

## **2 Thessalonians 2.1-5, 13-17**

A reading from the Second Letter of Paul to the Thessalonians

As to the coming of our Lord Jesus Christ and our being gathered together to him, we beg you, brothers and sisters, not to be quickly shaken in mind or alarmed, either by spirit or by word or by letter, as though from us, to the effect that the day of the Lord is already here. Let no one deceive you in any way; for that day will not come unless the rebellion comes first and the lawless one is revealed, the one destined for destruction. He opposes and exalts himself above every so-called god or

gwrthwynebydd sy'n ymddyrchafu yn erbyn pob un a elwir yn dduw neu sy'n wrthrych addoliad, nes eistedd ei hunan yn nheml Duw, gan gyhoeddi mai ef sydd Dduw. Onid ydych yn cofio fy mod wedi dweud hyn wrthych pan oeddwn eto gyda chwi?

Ond fe ddylem ni ddiolch i Dduw bob amser amdanoch chwi, gyfeillion annwyl gan yr Arglwydd, am i Dduw eich dewis chwi fel y rhai cyntaf i brofi iachawdwriaeth trwy waith sancteiddiol gan yr Ysbryd a thrwy gredu'r gwirionedd. I hyn y galwodd ef chwi, trwy'r Efyngyl yr ydym ni yn ei phregethu: i feddiannu gogoniant ein Harglwydd Iesu Grist. Am hynny, gyfeillion, safwch yn gadarn, a glynwch wrth y traddodiadau yr ydych wedi eu dysgu gennym ni, naill ai ar air neu trwy lythyr. A bydded i'n Harglwydd Iesu Grist ei hun, a Duw ein Tad, yr hwn sydd wedi ein caru ac wedi rhoi i ni ddiddanwch tragwyddol a gobaith da trwy ras, ddiddanu eich calonau a'ch cadarnhau ym mhob gweithred a gair da!

Dyma air yr Arglwydd.

**Diolch a fo i Dduw.**

### **Luc 20.27-38**

Gwrandewch Efyngyl Crist yn ôl Sant Luc

**Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

Daeth ato rai o'r Sadwceaid, y bobl sy'n dal nad oes dim atgyfodiad. Gofynasant iddo, "Athro, ysgrifennodd Moses ar ein

object of worship, so that he takes his seat in the temple of God, declaring himself to be God. Do you not remember that I told you these things when I was still with you?

But we must always give thanks to God for you, brothers and sisters beloved by the Lord, because God chose you as the first fruits for salvation through sanctification by the Spirit and through belief in the truth. For this purpose he called you through our proclamation of the good news, so that you may obtain the glory of our Lord Jesus Christ. So then, brothers and sisters, stand firm and hold fast to the traditions that you were taught by us, either by word of mouth or by our letter. Now may our Lord Jesus Christ himself and God our Father, who loved us and through grace gave us eternal comfort and good hope, comfort your hearts and strengthen them in every good work and word.

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

### **Luke 20.27-38**

Listen to the gospel of Christ according to St Luke

**Glory to you, O Lord.**

Some Sadducees, those who say there is no resurrection, came to him and asked him a question, 'Teacher, Moses wrote

cyfer, os bydd rhywun farw yn ŵr priod, ond yn ddi-blant, fod ei frawd i gymryd y wraig ac i godi plant i'w frawd. Yn awr, yr oedd saith o frodyr. Cymerodd y cyntaf wraig, a bu farw'n ddi-blant. Cymerodd yr ail a'r trydydd hi, ac yn yr un modd bu'r saith farw heb adael plant. Yn ddiweddarach bu farw'r wraig hithau. Beth am y wraig felly? Yn yr atgyfodiad, gwraig prun ohonynt fydd hi? Oherwydd cafodd y saith hi'n wraig." Meddai Iesu wrthynt, "Y mae plant y byd hwn yn priodi ac yn cael eu priodi; ond y rhai a gafwyd yn deilwng i gyrraedd y byd hwnnw a'r atgyfodiad oddi wrth y meirw, ni phriodant ac ni phriodir hwy. Ni allant farw mwyach, oherwydd y maent fel angylion. Plant Duw ydynt, am eu bod yn blant yr atgyfodiad. Ond bod y meirw yn codi, y mae Moses yntau wedi dangos hynny yn hanes y Berth, pan ddywed, 'Arglwydd Dduw Abraham a Duw Isaac a Duw Jacob'. Nid Duw'r meirw yw ef, ond y rhai byw, oherwydd y mae pawb yn fyw iddo ef." Atebodd rhai o'r ysgrifenyddion, "Athro, da y dywedaist", oherwydd ni feiddient mwyach ei holi am ddim.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

**Moliant i ti, O Grist.**

## **Yr Ymbiliau**

Gweddiwn dros yr Eglwys a thros y byd.

Caniatâ, Arglwydd Dduw, ar i bawb sy'n cyffesu dy enw gael eu huno yn dy wirionedd, byw ynghyd yn dy gariad a

for us that if a man's brother dies, leaving a wife but no children, the man shall marry the widow and raise up children for his brother. Now there were seven brothers; the first married, and died childless; then the second and the third married her, and so in the same way all seven died childless. Finally the woman also died. In the resurrection, therefore, whose wife will the woman be? For the seven had married her.' Jesus said to them, 'Those who belong to this age marry and are given in marriage; but those who are considered worthy of a place in that age and in the resurrection from the dead neither marry nor are given in marriage. Indeed they cannot die any more, because they are like angels and are children of God, being children of the resurrection. And the fact that the dead are raised Moses himself showed, in the story about the bush, where he speaks of the Lord as the God of Abraham, the God of Isaac, and the God of Jacob. Now he is God not of the dead, but of the living; for to him all of them are alive.'

This is the Gospel of the Lord.

**Praise to you, O Christ.**

## **The Intercessions**

Let us pray for the Church and for the world.

Grant, Almighty God, that all who confess your name may be united in your truth, live together in your love

datguddio dy ogoniant ar y ddaear ...

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Tywys bobl y wlad hon, a'r holl  
genhedloedd, yn ffyrdd cyfiawnder a  
heddwch; fel yr anrhydeddwn ein gilydd  
a chydweithio er lles pawb ...

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Dysg ni i barchu'r ddaear fel dy  
greadigaeth di, fel y gallwn ddefnyddio ei  
hadnodau'n ddoeth er gogoniant i ti ac  
er lles pawb ...

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Bendithia bawb y mae eu bywydau  
ynghlwm wrth ein bywydau ni. Bydded  
inni wasanaethu Crist ynddynt, a charu  
ein gilydd fel y mae ef yn ein caru ni ...

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Cysura ac iachâ bawb sy'n dioddef mewn  
corff, meddwl neu ysbryd; dyro iddynt  
ddewrder a gobaith yn eu treialon, a  
thywys hwy i lawenydd dy iachawdwriaeth

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

Gwrando arnom wrth i ni gofio'r rhai  
hynny a fu farw yn nhangnefedd Crist.  
Rhodded y Gwardwr atgyfodedig  
iddynt ran yn ei lawenydd ...

and reveal your glory in the world ...

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Guide the people of this land, and of all  
the nations, in the ways of justice and of  
peace; that we may honour one another  
and seek the common good ...

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Teach us to respect the earth as your  
creation, that we may use its resources  
wisely to your glory and for the good of  
all ...

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Bless all whose lives are closely linked  
with ours. May we serve Christ in them,  
and love one another as he loves us ...

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Comfort and heal all who suffer in body,  
mind or spirit; give them courage and  
hope in their troubles, and bring them  
the joy of your salvation ...

Lord, in your mercy  
**Hear our prayer**

Hear us as we remember those who  
have died in the peace of Christ. May  
the risen Saviour give them a share in his  
joy ...

Dad Trugarog,  
**derbyn y gweddiâu hyn**  
**er mwyn dy Fab,**  
**ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.**

## **Emyn 2**

Duw a Thad yr holl genhedloedd,  
O sancteiddier d'enw mawr,  
dy ewyllys di a wneler  
gan dylwythau daear lawr;  
doed dy deyrnas (x2)  
mewn cyfiawnder ac mewn hedd.

Gwasgar di y rhai sy'n caru  
rhyfel a'i erchylltra ef,  
rhag ei ddirfawr ddychryniadau  
dyro waredigaeth gref;  
tro'r cleddyfau (x2)  
oll yn sychau er dy glod.

Mewn trugaredd cofia'r gwledydd,  
o'u blinderau arwain hwy  
yn d'oleuni di i rodio  
fel na ddysgont ryfel mwy;  
O cymoder (x2)  
pawb â'i gilydd wrth y groes.

Rhodded pobloedd byd ogoniant  
fyth i'th enw, Arglwydd Iôr;  
llifed heddwch fel yr afon  
a chyfiawnder fel y môr;  
doed dy deyrnas (x2)  
mewn tangnefedd byth heb drai.

D. Tecwyn Evans, 1876-1957  
© Etifeddion D. Tecwyn Evans

Merciful Father,  
**accept these prayers**  
**for the sake of your Son,**  
**our Saviour Jesus Christ. Amen.**

## **Hymn 2**

Lord and Father of all nations,  
Let us sanctify thy name;  
Let thy wish come to fruition  
By all peoples here on earth;  
Bid thy kingdom  
Come in peace and righteousness.

Scatter those who thrive on warfare  
words and spears and sabres too;  
From war's bitter conflicts save them  
Give them strong deliverance;  
Turn all spears  
Into ploughshares for thy sake.

O remember with compassion  
All the nations and their griefs,  
Lead them in thy light to wander  
Ne'er again to think of war;  
Reconciler!  
Through the cross unite all men.

May the tribes of all the nations  
Praise thy name, for ever, Lord;  
May peace flow in one long river,  
justice spread like one big sea;  
Come thy kingdom  
Peace forever without ebb.

*Tr. Gwyn & Ifor ap Gwilym*

## Ôl Gymun

Dduw tangnefedd, y cyhoeddodd dy Fab  
lesu Grist y deyrnas ac adfer y drylliedig  
i gyfanrwydd bywyd: edrych yn dosturiol  
ar ing y byd, a bydded i ti trwy dy nerth  
iachaol gyfannu'r bobloedd a'r  
cenedloedd; trwy ein Harglwydd a'n  
Gwardwr Iesu Grist. **Amen.**

### Emyn 3

O Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt,  
ein gobaith am a ddaw,  
ein lloches rhag ystormus wynt  
a'n bythol gartref draw.

Cyn llunio'r bryniau o un rhyw,  
cyn gosod seiliau'r byd,  
o dragwyddoldeb ti wyt Dduw,  
parhei yr un o hyd.

O Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt,  
ein gobaith am a ddaw,  
ein lloches rhag ystormus wynt  
a'n bythol gartref draw.

Cyn llunio'r bryniau o un rhyw,  
cyn gosod seiliau'r byd,  
o dragwyddoldeb ti wyt Dduw,  
parhei yr un o hyd.

O Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt,  
ein gobaith am a ddaw,  
bydd inni'n nawdd tra pery'n hynt  
a'n bythol gartref draw.

*Isaac Watts, 1674–1748*  
*cyf. J. C. Davies, 1870–1952*

© Undeb Bedyddwyr Cymru. Defnyddiwyd trwy  
ganiatâd

## Post Communion

God of peace, whose Son Jesus Christ  
proclaimed the kingdom and restored the  
broken to wholeness of life: look with  
compassion on the anguish of the world,  
and by your healing power make whole  
both people and nations; through our  
Lord and Saviour Jesus Christ. **Amen.**

### Hymn 3

Our God, our help in ages past,  
our hope for years to come,  
our shelter from the stormy blast,  
and our eternal home:

Before the hills in order stood,  
or earth received her frame,  
from everlasting you are God,  
to endless years the same.

A thousand ages in your sight  
are like an evening gone;  
short as the watch that ends the night  
before the rising sun.

Time, like an ever-rolling stream,  
bears all its sons away;  
they fly forgotten, as a dream  
dies at the op'ning day.

Our God, our help in ages past  
our hope for years to come:  
O be our guard while troubles last,  
and our eternal home.

*Isaac Watts, 1674–1748*